**Rhif: 4**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C24/0331/41/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **29/04/2024** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanystumdwy** |
| **Ward:** | **Llanystumdwy** |
| **Bwriad:** | **Cais am 9 carafán ychwanegol ar y cae carafanau** |
| **Lleoliad:** | **Tŷ'n Lôn, Afonwen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6TX** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1 Disgrifiad:

1.1 Mae'r cais ar gyfer gosod 9 carafán ychwanegol ar y safle carafanau teithiol presennol. Bwriedir gosod 4 llain carafán deithiol ger ffin orllewinol y safle a byddai 5 llain carafán deithiol yn cael ei leoli yn ganolog ar y safle. Mae caniatâd presennol i osod 19 carafán deithiol ar y safle a byddai'r bwriad yn cynyddu hyn i 28 carafán deithiol. Byddai 1 llecyn parcio yn cael ei ddarparu ar gyfer pob carafán ar y safle a bwriedir creu trac gro oddi fewn y safle.

1.2 Safle cefn gwlad yw hwn sydd wedi ei leoli gyfochrog â ffordd sirol dosbarth 1 yr A497 rhwng cylchfan Afon Wen a chyffordd Pandy sy'n arwain at Chwilog. Ceir coed aeddfed ar hyd terfynau presennol y cae. Ceir tai gwasgaredig a ffermydd yn y cyffiniau. Mae'r cae dan sylw wedi ei adnabod fel Safle Bywyd Gwyllt Lleol.

1.3 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Cynllunio gan fod safle'r cais yn fwy na 0.5 hectar o faint. Bu i'r Aelod Lleol hefyd wneud cais i alw'r cais i Bwyllgor.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn datgan fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Er bod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLl) yn rhagflaenu fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (PCC), ystyrir fod y polisïau sy'n berthnasol i'r cais hwn yn y CDLl ar y Cyd yn parhau yn gyson gyda PCC.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad isod mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad ac hygyrchedd
TRA 2: Safonau parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 5: Datblygu Cynaliadwy
PCYFF 1: Ffiniau datblygu
PCYFF 2: Meini prawf datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
PS 14: Yr Economi Ymwelwyr
TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro
PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol
AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol

Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (Mawrth 2021)
Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

**2.4 Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 - Chwefror 2024)
Nodyn Cyngor Technegol: 12 Dylunio : Mehefin (2016)
Nodyn Cyngor Technegol: 18 Trafnidiaeth : Mawrth (2007)

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C21/1038/41/LL - Sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiledau a gwaith cysylltiedig - Gwrthod 2 Mawrth 2023. Caniatawyd Apêl am y bwriad ar 21 Tachwedd 2023.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Tref / Cymuned: Gwrthwynebu oherwydd fod hyn yn creu gor-dwristiaeth yn yr ardal. Mae gennym bryder nad oes diffiniad o 'ormodedd' yn y rheolau cynllunio. Mae hefyd pryder nad yw'r cais cynllunio presennol yn cydymffurfio, sef fod clawdd yn eu cuddio nhw.

Trafnidiaeth: Heb eu derbyn.

Dŵr Cymru: Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

CARTHFFOSIAETH
Gan fod y bwriad yn bwriadu defnyddio dull arall i'r brif system ddraenio, cynghorwn bod yr ymgeisydd yn gofyn am gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru a / neu'r Adran Rheoli Adeiladau'r Awdurdod Lleol / Arolygydd Adeiladau Cymeradwy gan fod y ddau yn gyfrifol am reoli dulliau amgen o ddraenio. Fodd bynnag, pe byddai amgylchiadau'n newid a bod cysylltu â'r system gyhoeddus/gwaith trin carthffosiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio, byddai'n rhaid ail-ymgynghori â ni ynghylch y cais hwn.

Nodyn Cyngor
Hysbysir yr ymgeisydd hefyd y gallai bod rhai carthffosydd cyhoeddus a draeniau ochrol heb gael eu cofnodi ar ein mapiau carthffosydd cyhoeddus gan eu bod yn wreiddiol mewn perchnogaeth gyhoeddus drwy natur Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011. Gall presenoldeb asedau o'r fath effeithio ar y bwriad. Er mwyn ein cynorthwyo i ddelio gyda'r bwriad gall yr ymgeisydd gysylltu â Dŵr Cymru. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru hawliau i gael mynediad i'w offer bob amser.

CYFLENWAD DŴR
Rydym yn rhagweld bydd y datblygiad hwn angen gosod cysylltiad dŵr sengl newydd i wasanaethu'r eiddo newydd. Mae capasiti ar gael yn y system cyflenwad dŵr i hwyluso'r datblygiad. Bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais i Ddŵr Cymru i gysylltu â'r system cyflenwad dŵr yfadwy dan Adran 45 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Caiff sylw'r

| | |
|---|---|
| | ymgeisydd ei dynnu at nodiadau ein canllaw cais am gysylltiad dŵr newydd sydd ar gael ar ein gwefan.<br><br>Mae ein hymateb yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Gofynnwn yn garedig, pe bai'r bwriad yn newid yn ystod proses y cais, i chi ail-ymgynghori gyda ni a chadwn yr hawl i gyflwyno sylwadau o'r newydd. |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC: | Nid oes gan yr uned sylwadau i'w cynnig o ran draenio tir, risg llifogydd lleol nag erydiad arfordirol. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Heb eu derbyn. |
| Uned Gorfodaeth Trwyddedu Carafanau: | Mae'r memo yma yn rhoi diweddariad yn dilyn Archwiliad Trwyddedu ar y 04-06-24 i safle Tyn Lon.<br><br>Bydd y datblygiad yn amodol ar y Ddeddfwriaeth isod o agwedd Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân a darpariaeth Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn:<br><br>1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ag Ati 1974<br><br>2. Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960<br><br>3. Safonau Model 1989 - Carafán Statig - Defnydd Byw warden<br><br>Rhaid i'r datblygiad gydymffurfio yn llawn gydag amodau trwydded<br><br>www.gwynedd.llyw.cymru/trwyddedcarafanau<br><br>Mae carafán statig wedi ei lleoli ger y sied sydd yn ei defnyddio o bosib ar gyfer defnydd warden y safle. Fe fydd angen trwydded safle ar gyfer y weithgaredd hon ond bydd angen caniatâd cynllunio cyn gall yr ymgeisydd wneud cais am drwydded carafán warden.<br><br>4. Safonau Model 1983 - Carafanau Teithiol / Pebyll<br><br>Rhaid i'r datblygiad gydymffurfio yn llawn gydag amodau trwydded<br><br>www.gwynedd.llyw.cymru/trwyddedcarafanau<br><br>5. Cerbydau Argyfwng - Safonau Model 1983<br><br>Nid yw'r brif fynedfa i mewn ac allan o'r safle wedi ei chreu yn unol â chynllun safle 1:500 1801/03 dyddiedig 09-12-2002. Mae cyrbau wedi'u creu i rwystro mynediad yn yr ardal |

hon. Roedd y brif giât i'r safle lle arddangosir arwyddion safle Tyn Lon wedi'i chloi gyda chlo clap yn ystod ymweliad safle 04-06-24 ac nad yw'n cydymffurfio ag amodau'r drwydded pe bai argyfwng yn digwydd ar y safle lle mae angen mynediad i gerbydau brys / meddyg ayyb mewn argyfwng o'r fath. Dylai cerbydau argyfwng gael mynediad priodol, o fewn i 90 medr o unrhyw uned ar y safle ar bob achlysur yn unol ag amodau trwydded.

6. Cyfleusterau toiled, ymolchi, cawodydd, ystafell ymolchi ar gyfer anabl

Nid oes cyfleusterau anabl wedi eu darparu yn unol â chynllun 1:50 1801/04 dyddiedig 09-12-2002. Mae mynediad i'r bloc toiledau yng nghefn yr adeilad yn groes i'r cynllun sydd yn arwain ar lwybr llethr i'r toiledau lle dylai'r cyfleusterau anabl fod wedi eu creu. Dylai'r fynedfa i'r cyfleusterau fod wedi eu creu tu blaen i'r adeilad yn gwynebu y ffordd fawr. Mae'n ofynnol darparu'r canlynol yn cynnwys ystafell cyfleusterau anabl:

| | Merched | Dynion | |
|---|---|---|---|
| Toiled | 2 | 2 | |
| Ymolchi | 2 | 2 | |
| Cawod | 2 | 2 | |
| Darpariaeth Anabl | Toiled | Baswn Ymolchi | Cawod |

7. Cais am Drwydded Safle yn dilyn caniatáu cais cynllunio. Dymunwn fod y wybodaeth hon yn ei hadrodd ar y caniatâd cynllunio petai'r cais yn ei ganiatáu: 'Yn dilyn unrhyw gais cynllunio sydd yn ei ganiatáu mewn perthynas â maes carafanau neu bebyll o dan y Deddfau 1960 & 1936, bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais am drwydded safle a chyflwyno cynllun manwl graddfa 1:500 o'r safle i'r Gwasanaeth Trwyddedu. I drafod ymhellach, gellir cysylltu gyda Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu, Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub: Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'r roi ynglŷn â mynedfa i gerbydau tân a chyflenwad dŵr.

Gwasanaeth Gwarchod y Heb eu derbyn.

Cyhoedd:

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ger y safle a gwybyddwyd trigolion/eiddo cyfagos. Derbyniwyd gwrthwynebiad ar sail:<br>• Nid yw'r cynllun yn dangos lleoliad y 9 carafán ychwanegol.<br>• Effaith ar eiddo cymdogol drwy fod y carafanau i'w gweld drwy'r gwrychoedd o eiddo cyfagos.<br>• Coed yn disgyn o Goedwig Bryn Tirion.<br>• Materion yn ymwneud gyda diffyg cydymffurfio gyda'r caniatâd cynllunio ar faterion fel lleoliad y carafanau, trwydded moch daear, lle chwarae plant, mynediad i'r safle, plannu heb ei wneud, carafán sefydlog ar y tir.<br>• Pryder mai ond cysylltiad trydan sydd ger pob llain ac nad yw dŵr a carthffosiaeth wedi ei gysylltu. |

**5. Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Gan mai safle ar gyfer carafanau teithiol sydd yma rhaid ystyried y cais dan Bolisi TWR 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl) sy'n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau o'r fath. Mae Polisi TWR 5 yn datgan y caniateir cynigion am safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu lety wersylla amgen dros dro, estyniadau i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf a gynhwysir yn y Polisi.

5.2 Mae maen prawf 1 polisi TWR 5 yn datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a hefyd dylai fod wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd i'r dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i'w hansawdd weledol.

5.3 Mae'r bwriad yn ymwneud â chynyddu niferoedd carafanau teithiol ar y safle presennol. Mae'r safle wedi ei leoli mewn cae gwastad sydd â choed aeddfed ar y terfynau ac felly'n guddiedig o leoliadau cyhoeddus. Nid yw'r safle o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) nac o fewn Ardal Tirwedd Arwyddocaol a ni chredir y byddai cynyddu'r nifer o unedau yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd y dirwedd. Mae'r bwriad wedi ei ddylunio i gwrdd â gofynion trwyddedu o safbwynt gofod rhwng unedau a ni chodwyd unrhyw bryderon am ddwysedd yr unedau mewn perthynas â maint y safle. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn orddatblygiad o'r safle ac ystyrir fod lle digonol i'w gael i leoli 9 uned ychwanegol ar y safle carafanau teithiol presennol.

5.4 Mae ail faen prawf Polisi TWR 5 yn gofyn i osgoi gormodedd o leiniau caled. Mae'r cais yn dangos bwriad i greu trac gro i hwyluso symudiadau cerbydol o fewn y safle. Ystyrir y gall ffordd raean ymdoddi'n rhwydd i'r dirwedd. Ni ystyrir fod y bwriad yn creu gormodedd o leiniau caled a bod yr hyn a gynigir yn addas ac yn dderbyniol o ran y maen prawf perthnasol.

5.5 Mae'r trydydd maen prawf yn gofyn sicrhau mai unedau teithiol yn unig fyddai'n defnyddio'r safle - fe ellir rheoli hynny drwy amod cynllunio priodol.

5.6 Mae'r pedwerydd maen prawf yn gofyn sicrhau bod unrhyw gyfleusterau atodol mewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleuster presennol os yn bosib, neu os ddim, eu bod yn gymesur â graddfa'r datblygiad. Cafodd bloc toiledau / cawod ei ganiatáu fel rhan o gais C21/1038/41/LL a ni fyddai angen adeilad ychwanegol fel rhan o'r cais presennol. Mae'r bwriad felly yn bodloni maen prawf 4 TWR 5 yn ogystal â pholisi PCYFF 3 y CDLl.

5.7 Yn bumed, mae'r polisi'n gofyn bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n ormodol ar nodweddion y dirwedd - fe drafodir materion priffyrdd isod.

5.8 Mae'r chweched maen prawf yn gofyn sicrhau bod meddiannaeth wedi ei gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig - fe ellid sicrhau hynny drwy amod cynllunio priodol.

5.9 Mae'r seithfed, a'r olaf o'r meini prawf, yn gofyn sicrhau bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithiol yn unig a bod yr unedau'n cael eu tynnu o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio - mae hyn eto yn fater o osod amod cynllunio priodol.

5.10 Ar y cyfan felly credir fod y cynnig yn cwrdd â'r meini prawf a osodir gan Bolisi TWR 5 a gofynion polisi PCYFF 3 y CDLl.

5.11 Ar gais C21/1038/41/LL codwyd pryderon gan Aelodau am effaith gronnus o ran agosatrwydd y safle at safleoedd carafanau sefydlog megis Hafan y Môr ac Ocean Heights a safle teithiol Afon Wen gyferbyn â Sŵn y Môr i'r cefn. Er bod sawl safle sefydlog a theithiol yn y cyffiniau, ni ystyrir yr ardal dan sylw yn esiampl o leoliad sydd o dan bwysau aruthrol o ran datblygiadau twristiaeth o'r fath. Yn wahanol i bolisi TWR 3 sy'n ymwneud â safleoedd carafanau sefydlog, nid yw effaith gronnus yn ystyriaeth ym meini prawf polisi TWR 5 gan mai defnydd dros dro yw'r defnydd teithiol gyda llai o effaith na strwythurau sefydlog. Fodd bynnag, mae'r meini prawf eu hunain yn ymateb i'r effaith gronnus yn yr ystyr na ddylid caniatáu safleoedd mewn mannau ymwthiol nad ydynt yn agos i'r prif rwydwaith ffyrdd. Ystyrir y safle, hyd yn oed dros fisoedd y gaeaf, wedi ei sgrinio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd. Fe nodir ym mharagraff 6.3.81 y polisi na ddylid caniatáu carafanau mewn lleoliadau agored ger yr arfordir nac mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r safle wedi ei leoli i ffwrdd o leoliad arfordirol agored ac nid oes unrhyw ddynodiad tirwedd i'r cyffiniau. Mae safle teithiol Fferm Afon Wen gyferbyn wedi ei guddio'n gymharol dda, ac er efallai y byddai'n rhannu'r un cyd-destun gweledol o'r ffordd sirol, oherwydd natur y llystyfiant ni chredir y byddai'r datblygiad yn ymddangos yn ormodol nac yn niweidiol i'r tirlun yn y safle hwn. Cafodd y mater o effaith gronnus hefyd ei ystyried a'i ddiystyru gan yr Arolygydd fel rhan o'r apêl ar gais C21/1038/41/LL. Ystyrir fod sylw teg wedi ei roddi i effaith gronnus datblygu safle carafanau teithiol ar y tir ar gais ac apêl cysylltiedig C21/1038/41/LL. Erbyn hyn mae'r safle carafanau teithiol wedi ei sefydlu ar y tir a rhaid cofio mai cais sydd gerbron i osod 9 carafán deithiol ychwanegol ar safle carafanau presennol ac nid i greu safle carafanau newydd.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.12 Saif eiddo Tŷ'n Lôn yn unig gyfochrog â'r ffordd sirol. Mae'r eiddo agosaf iddo dros ffordd yr A497 a lled cae oddeutu 135 medr i'r de orllewin, sef Fferm Afon Wen. Ceir Hen Efail dros ddau gae oddeutu 270 medr i'r gogledd ddwyrain ac eiddo Sŵn y Môr dros ddau gae oddeutu 250 medr i'r gogledd orllewin. Ar sail y pellter a natur guddiedig y cae, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol nac achosi aflonyddwch ar unrhyw drigolion cyfagos. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi PCYFF 2 y CDLl sy'n ymwneud ag amddiffyn mwynderau defnyddwyr tir cyfagos.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.13 Mae'r safle gyda mynediad uniongyrchol i ffordd ddosbarth 1 yr A497 gydag ardal o balmant llydan rhwng y ffordd a mynedfa'r eiddo. Mae'r ffordd yn syth yn y lleoliad hwn a'r gweledededd yn glir i'r ddau gyfeiriad am bellter. Ni fydd angen gwneud addasiadau i'r fynedfa er gwasanaethu'r bwriad. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Uned Drafnidiaeth i'r cais. Bydd digon o lefydd

parcio i'w gael o fewn y safle. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau TRA 2 a TRA 4 CDLL. Mae'r bwriad yn bodloni gofynion maen prawf 5 polisi TWR 5 hefyd gan ei fod yn agos i'r prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

**Cynaliadwyedd**

5.14 Mae polisi PS 5 (Datblygiadau Cynaliadwy) yn cefnogi datblygiadau sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ble bo'n briodol, dylai datblygiadau:

*"Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4" (Pwynt bwled 12, Polisi PS 5)*

Ategir hyn gan bwynt bwled 4 polisi PS 14 (Yr Economi Ymwelwyr).

5.15 Ystyrir bod polisïau'r CDLL yn gyson gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol o safbwynt sut mae'n ymdrin ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.

5.16 Er y cydnabyddir y byddai defnyddwyr yr unedau teithiol yn defnyddio cerbydau preifat i gyrraedd y safle (oherwydd yr angen i dynnu carafán) mae gwahanol opsiynau ar gael ar gyfer defnyddio dulliau amgen o deithio unwaith byddent wedi cyrraedd y safle gan gynnwys beicio, trafnidiaeth gyhoeddus ac ar droed.

5.17 Nodir bod arosfan bws wedi ei leoli ger cylchfan Afon Well nepell o brif fynedfa'r safle ar yr A497. Yn ogystal, mae palmant droed ar gael yr holl ffordd ar hyd y lon o fynedfa'r safle i Griccieth neu lwybrau i Bwllheli lle mae nifer o gyfleusterau ac atyniadau ar gael. Mae'r palmant hefyd yn cysylltu sawl llwybr cyhoeddus yn yr ardal, megis y Lôn Goed. Yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau materol cynllunio perthnasol, ystyrir bod lleoliad y safle yn gynaliadwy ac yn dderbyniol ar sail gofynion polisïau PS4, PS5 a PS14 o'r CDLL ynghyd â chydymffurfio â'r cyngor a gynhwysir yn NCT 18 a PCC.

**Materion bioamrywiaeth**

5.18 Mae'r cae dan sylw ynghyd â'r tir i'r gogledd a gorllewin o'r safle wedi ei adnabod yn safle Bywyd Gwyllt Lleol. Adnabuwyd y cae fel glaswelltir wedi ei wella ac a oedd o werth cadwraethol isel ar gais C21/1038/41/LL ond fod y gwrychoedd terfyn o amgylch y safle yn bwysig. Bellach mae'r cae yn gweithredu fel safle carafanau teithiol. Ystyrir fel y cais blaenorol y byddai'n bwysig i gadw'r gwrychoedd terfyn o amgylch y safle a gellir gosod amod cyffelyb i'r hyn a geir ar gais C21/01038/41/LL i ddiogelu'r gwrychoedd yma ar unrhyw ganiatâd cynllunio. Derbyniwyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd byr iawn sydd wedi cynnig gwelliannau bioamrywiaeth i gynnwys gosod bocs adar a bocs ystlumod ar yr adeilad toiledau / cawod. Ystyrir fod cynnig bocs adar ac ystlumod yn dderbyniol ond ystyrir fod cyfle yma i gynnwys rhagor o welliannau bioamrywiaeth fel plannu ychwanegol i ategu'r ffiniau a / neu i blannu o fewn y safle. Ystyrir felly y byddai'n briodol i gynnwys amod i gytuno'r gwelliannau bioamrywiaeth. Ystyrir o roddi amodau priodol fod y bwriad yn un derbyniol o ran gofynion polisi AMG 6 CDLl a Pholisi Cynllunio Cymru.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.19 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2019) ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol 20.

5.20 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol. Nid yw'r bwriad

arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg fodd bynnga mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn Atodiad 5 yn nodi y dylai pob datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i'r iaith.

5.21 Fe gyflwynwyd dogfen i gefnogi'r cais yn egluro pa ystyriaeth a roddwyd i'r iaith Gymraeg wrth lunio'r cynllun gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Cadw'r enw Cymraeg Tŷ'n Lôn ac arwyddion dwyieithog
- Y defnydd ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr ac yn gyffredinol am gyfnod o ryw 6 mis yn ystod cyfnod yr haf.
- Y byddai'r bwriad yn cyfrannu yn uniongyrchol ac uniongyrchol i'r economi wledig trwy wariant ymwelwyr mewn cyfleusterau fel tafarndai lleol, bwytai a sefydliadau eraill.
- Y datblygiad yn cynnwys buddsoddiad cychwynnol o £60,000 i £70,000 gyda chontractwyr a chyflenwyr lleol yn cael eu defnyddio.
- Cyflogi un aelod o staff rhan amser.
- Y safle yn ganolog i ganolfannau lleol.

5.22 Credir bod gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i gwrdd â gofynion polisi PS 1 a'r CCA o safbwynt dangos bod ystyriaeth briodol wedi ei wneud o'r Iaith Gymraeg wrth lunio'r cynllun hwn.

**Unrhyw faterion eraill**

5.23 Gwelir o sylwadau'r Uned Gorfodaeth Trwyddedu Carafanau a gohebiaeth a dderbyniwyd gan 3ydd parti fod pryderon os yw'r safle carafanau yn gweithredu yn unol gyda'r caniatâd cynllunio C21/1038/41/LL. Mae'r Gwasanaeth Gorfodaeth yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn ymchwilio i'r materion a godwyd. Tra'n gresynu fod posibilrwydd nad yw'r safle yn cael ei weithredu yn unol gyda'r caniatâd cynllunio nid yw hynny yn ei hun yn rheswm dros wrthod y cais presennol.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr asesiad uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail y materion fel y nodir yn yr adroddiad ac na fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, mwynderau'r gymdogaeth na diogelwch ffyrdd.

## 7. Argymhelliad:

7.1 I ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Amser
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Cyfyngu nifer o unedau teithiol ar y safle yn ei gyfanrwydd i 28 carafán deithiol yn unig.
4. Defnydd gwyliau yn unig a chadw cofrestr.
5. Tymor gwyliau - 1af Mawrth i 31 Hydref
6. Dim storio carafanau teithiol ar y safle.
7. Cadw'r coed a gwrychoedd ar hyd terfynau'r safle.
8. Cyflwyno a chytuno gwelliannau bioamrywiaeth ar gyfer y safle.
9. Cyfyngir unrhyw loriau caled i leiniau carafanau a'r trac fel y dangosir ar gynllun 1965/03 yn unig.

Nodiadau:
Angen Trwydded Carafanau
Tynnu sylw at sylwadau Dŵr Cymru